**Gwybodaeth ychwanegol | Additional information**

---

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?

Ymateb gan Comisiynydd y Gymraeg
Response from Wales and Welsh Language Commissioner

---

26/07/2023

Annwyl Gadeirydd,

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Diolch yn fawr am eich llythyr ynghylch yr ymchwiliad uchod. Fel y gwyddoch, mae'r gwaith a gyhoeddwyd gennyf i a Chomisiynydd Plant Cymru yn amlygu'r ffaith nad yw plant a phobl ifanc sydd yn dymuno cael addysg cyfrwng Cymraeg wastad yn cael mynediad cyfartal at ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) addas. Byddwn felly yn dymuno i chi ystyried y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn ein papur fel rhan o'ch ymchwiliad.


Mae eich llythyr yn gofyn a oes unrhyw faterion penodol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth gofal plant ar gyfer plant a phobl ifanc niwrowahanol neu anabl y dylai'r Pwyllgor fod yn ystyried fel rhan o'r ymchwiliad. Y tu hwnt i'r dystiolaeth gyffredinol sydd wedi'i chynnwys yn ein cyhoeddiad ar ADY, mae un argymhelliad penodol yn y papur sydd yn berthnasol iawn i'ch ymchwiliad. Mae argymhelliad cyntaf y papur yn ymwneud â gwella dealltwriaeth ynghylch y graddau mae anghenion dysgwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu diwallu ar hyn o bryd. Mae'n tystiolaeth ni yn awgrymu nad oes ar hyn o bryd ddarlun llawn o'r ddarpariaeth, a bod angen gwneud mwy i ddeall y bylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth bresennol a'r mathau o heriau sy'n wynebu plant a theuluoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Credwn felly y gall ymchwiliad y Pwyllgor gyfrannu at wella dealltwriaeth ynghylch hyn, ac at wneud yn siŵr bod llais plant a phobl ifanc anabl sy'n siarad Cymraeg yn cael ei glywed.

Yn ogystal â sicrhau fod y Gymraeg yn thema fydd yn cael ei ystyried ar draws yr ymchwiliad, credaf y dylai'r Pwyllgor gymryd camau penodol er mwyn casglu barn a thystiolaeth ynghylch profiadau plant a theuluoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Un ffordd o wneud hyn fyddai sicrhau mewnbwn sefydliadau fel Mudiad Meithrin a Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) sydd â dealltwriaeth fanwl ac arbenigol o'r materion hyn. Gwyddom hefyd fod gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno eu hadroddiadau adolygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg erbyn 31 Gorffennaf 2023. Mae'n bosib felly y bydd y gwaith o fonitro cynnydd yn erbyn deilliant 6 y cynlluniau (sef gwella darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg) yn berthnasol i'ch ymchwiliad yn ogystal. Yn olaf, efallai eich bod

yn ymwybodol fod gan y Llywodraeth fwriad sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol ADY a’r Gymraeg, a hefyd i benodi swyddog gweithredu cenedlaethol ADY a’r iaith Gymraeg cyn diwedd y flwyddyn. Er na fydd y datblygiadau hyn mewn lle er mwyn cyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor, rwy’n siŵr y bydd canfyddiadau’r ymchwiliad o ddiddordeb i’r grŵp rhanddeiliaid ac i’r swyddog gweithredu cenedlaethol.

Hoffwn ddiolch i chi eto am gynnal yr ymchwiliad pwysig hwn, ac am sicrhau y bydd anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried yn llawn.

Yr eiddoch yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg